



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG)

(YN MASNACHU DAN YR ENW GYRFA CYMRU)

Penodi Aelodau i'r Bwrdd

Dyddiad cau: 02 Ionawr 2017



**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod	5
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Gyrfa Cymru	8
Atodiad C: Y broses ddethol	10

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Gwneud cais

Diolch ichi am eich diddordeb yn y broses o benodi 3 aelod i Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG) sy'n masnachu dan yr enw Bwrdd Gyrfa Cymru. Bydd yr aelodau newydd yn arolygu, llywodraethu ac yn darparu cyfeiriad strategol i dîm gweithredol CCDG. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl aelod o'r bwrdd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Career Choices Dewis Gyrfa a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i'r dudalen penodiadau cyhoeddus ar wefan Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-8f7e9f7e35c0/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd CCDG ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, trwy eich cyfrif.

Unwaith i chi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi atodi datganiad personol a CV at yr adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol a ddarparwch sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Mae'n bosib y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	02 Ionawr 2017
Dethol y rhestr fer:	16 Ionawr 2017
Cyfweliadau:	06 neu 10 Mawrth 2017

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol all fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltu:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Bwrdd CCDG a rôl Aelodau'r Bwrdd, cysylltwch â Vicky Green, Rheolwr Cymorth Ieuenctid, yn y Gangen Cymorth a Chanllawiau i Ieuenctid:

Ffôn: 0300 025 0234

E-bost: vicky.green@cymru.gsi.gov.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu drwy anfon e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Atodiad A

Penodi 3 Aelod i Fwrdd CCDG

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelod o Fwrdd Career Choices Dewis Gyrfya (Gyrfa Cymru) yn:

- Chwarae rhan amlwg yn y gwaith o gyflawni cylch gwaith CCDG a sicrhau bod CCDG mor effeithiol â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys rhannu ei arbenigedd o ran yr hyn sy'n gweithio, herio'r sefyllfa bresennol ac awgrymu atebion i broblemau;
- Sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau caffael perthnasol, mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer CCDG (fel is-gorff i Lywodraeth Cymru sy'n perthyn yn gyfan gwbl iddi a chwmni *Teckal*) a gwariant CCDG fel awdurdod contractio sy'n ddarostyngedig i'r rheolau caffael.
- Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd a pharatoi'n drylwyr ar eu cyfer;
- Bod yn barod i wasanaethu ar is-bwyllgorau;
- Arwain rheolwyr a staff CCDG i gyflawni Gweledigaeth Strategol Gyrfya Cymru, sef Newid Bywydau – Gweledigaeth ar gyfer Gyrfya Cymru;
- Herio a chynorthwyo rheolwr a staff CCDG wrth eu gwaith a chynnal cydbwysedd rhwng y swyddogaethau hyn;
- Cynrychioli'r CCDG mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- Hyrwyddo proffil CCDG; a
- Hwyluso cysylltiadau â rhanddeiliaid CCDG.

Manyleb y Person

Mae CCDG am benodi tri aelod newydd i'r bwrdd sy'n meddu ar amrywiaeth o arbenigedd ar draws ystod eang o sectorau economaidd, proffesiynau a grwpiau cymdeithasol. Yn benodol, byddem yn falch o gael ceisiadau gan unigolion sydd ag arbenigedd masnachol a chefnidir yn y sectorau canlynol:

- deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- proffesiynol ac ariannol;
- bwyd a diod;
- TGCh a thechnolegau newydd;
- twristiaeth;
- marchnata.

Byddem hefyd yn falch o gael ceisiadau gan unigolion sy'n meddu ar sgiliau yn y meysydd canlynol;

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR ENW GYRFA CYMRU

- Llywodraethu corfforaethol;
- Caffael a thendro;
- Datblygu polisi;
- Trawsnewidiad digidol;
- Entrepreneuriaeth.

Meini Prawf Hanfodol

Yn ogystal â hyn, bydd aelodau'r bwrdd yn arddangos y rhinweddau canlynol:

- Hanes llwyddiannus o feithrin perthynas gydag ystod o randdeiliaid, yn enwedig gyda chyflogwyr;
- Gwybodaeth am ddysgu a materion gwaith ar lefelau cymunedol, lleol a rhanbarthol neu genedlaethol, a dealltwriaeth ohonynt.
- Sgiliau cyfathrebu gwyb, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno wrth egluro materion cymhleth, gan barchu safbwyntiau pobl eraill.
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ymhelaethu ar sut y maent yn bodloni'r meini prawf uchod gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Y Gymraeg

Mae sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y tair swydd. Er nad yw'n hanfodol meddu ar y sgiliau hyn, dylai pob ymgeisydd ddangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog a gwerthfawrogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru o ran yr iaith.

Ar hyn o bryd, mae CCDG yn gwasanaethu'n ddwyieithog a bydd yn chwarae rôl amlwg yn y gwaith o hyrwyddo ac integreiddio cymorth a chyingor ynghylch y Gymraeg a sgiliau'r Gymraeg wrth weithredu a chyflawni ei wasanaethau cynghori.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd CCDG yn cael eu cynnal mewn gwahanol rannau o Gymru, ac wrth i aelodau'r Bwrdd gyflawni eu dyletswyddau, disgwylir iddynt ymgysylltu â phob ardal. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

Ymrwymiad Amser: Disgwylir i'r aelodau ymrwymo o leiaf 8 diwrnod y flwyddyn.

Hyd y penodiad: Bydd cyfnod eich penodiad yn dechrau ar 28 Ebrill 2017 ac yn dod i ben ar 27 Ebrill 2020. Gall y naill barti neu'r llall roi terfyn ar y penodiad yn gynharach drwy roi rhybudd ysgrifenedig un mis ymlaen llaw.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR ENW GYRFA CYMRU

Cewch wasanaethu yn y swydd am hyd at ddau gyfnod tair blynedd yn olynol.

Tâl:

Nid yw aelodau bwrdd CCDG yn weithwyr cyflogedig i'r cwmni na Llywodraeth Cymru a chyflawnant eu dyletswyddau fel gweithwyr gwirfoddol, di-dâl ar hyn o bryd.

Caiff treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n codi yn sgil mynd i gyfarfodydd CCDG neu ar ymweliadau ar ran CCDG eu had-dalu gan CCDG ei hun yn unol â'r gyfradd a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas ag aelodau Pwyllgorau'r Llywodraeth. I hawlio ad-daliad, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth CCDG.

Mae'n bosibl y telir costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol a fydd yn codi'n uniongyrchol o wneud gwaith i CCDG.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Os caiff CCDG ei ddiddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd cyfnod eich penodiad, bydd eich penodiad yn dod i ben adeg ei ddiddymu neu ar ba ddyddiad bynnag a bennir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Caiff y penodiad ei derfynu ar unwaith os cewch eich collfarnu am drosedd, a/neu os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod eich ymddygiad yn golygu nad ydych yn addas bellach i fod yn aelod o Fwrdd CCDG.

Gallech golli eich swydd fel aelod o'r Bwrdd cyn diwedd tymor eich penodiad os cewch orchymyn methdal.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd CCDG yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro o ran buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro, neu roi argraff o wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Aelod o Fwrdd CCDG, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar Fwrdd CCDG.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddion hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau CCDG – Gyrfa Cymru

Cefndir

Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar gael i fyfyrwyr ysgol a myfyrwyr addysg bellach yn ogystal ag i bobl ifanc nad ydynt yn dilyn cwrs addysg ac i oedolion.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu drwy Career Choices Dewis Gyrfa (CCDG) sy'n gweithredu o dan yr enw Gyrfa Cymru. Mae CCDG yn is-gorff i Lywodraeth Cymru ac mae'n perthyn yn gyfan gwbl iddi.

Bydd 3 aelod newydd yn cael eu penodi i'r Bwrdd i ddechrau ar 28 Ebrill 2017. Gwneir y penodiadau hyn drwy broses benodi gyhoeddus deg ac agored.

Mae gan Gyrfa Cymru gyllideb o £18m o Gyllid Refeniw Craidd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2017. Bydd y cwmni'n cyflawni ei ddarpariaeth yng nghydestun setliad ariannol heriol yn y dyfodol.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd am yrfaeodd sy'n ddiudedd ac am ddim.

Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau ac yn integreiddio plattfformau ar-lein, ffôn ac wyneb yn wyneb i ysgogi effeithlonrwydd gan fewngorffori newidiadau i'r gwaith o gyflawni gwasanaethau drwy ddefnyddio technolegau newydd.

Mae Gyrfa Cymru yn mynd ati'n rhagweithiol ar lefelau lleol a chenedlaethol gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus i helpu i gyflawni strategaethau economaidd, addysg, sgiliau a chymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae Gyrfa Cymru yn rhan o'r canlynol:

- Cymwys am Oes
- Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- Llwybrau Dysgu 14-19
- STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg)
- Cymorth i ysgolion sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith statudol
- Mentrau Sgiliau a Hyfforddiant, ee y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau

Mae gan Gyrfa Cymru bedwar maes gweithredol, a chaiff pob un ei arwain gan

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR ENW GYRFA CYMRU

Gyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr CCDG sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad.

Y pedwar maes gweithredu yw: datblygu gwasanaethau; darparu gwasanaethau; gwella perfformiad a rheoli busnesau / adnoddau.

O dan bob un o'r Cyfarwyddwyr hyn mae swyddogaethau polisi a gweithredol allweddol ee adnoddau dynol, ymchwil a gwerthuso, rheoli risg, hyrwyddo a gweithio mewn partneriaeth.

Rôl Gyrfa Cymru

Prif nod Gyrfa Cymru fydd sicrhau bod unigolion yn llwyddo i gynllunio eu gyrfaoedd yn effeithiol, yn ymdopi'n dda â'r cyfnod pontio i addysg bellach, yn llwyddo i gael gwaith neu hyfforddiant ac yn datblygu'n barhaus. Bydd y canlyniadau hyn yn cael effaith amlwg, ee llai o bobl ifanc yn ymddieithrio rhag cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Yr her i'r gwasanaeth gyrfaoedd yw:

- Gweithio gydag ysgolion, colegau ac amrywiaeth o asiantaethau a sefydliadau eraill i helpu pobl ifanc i fynd drwy'r system addysg i mewn i ddysgu pellach neu gyflogaeth (11-14, 14-16).
- Cefnogi pobl ifanc 16-18 oed i gymryd y cam nesaf, gan gynnwys y bobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddi-waith;
- Cefnogi oedolion sy'n wynebu diswyddiadau neu sydd wedi'u diswyddo.
- Cynorthwyo oedolion diwaith 25 oed a hŷn drwy'r Porth Sgiliau.
- Darparu cymorth mwy penodol a dwys i grwpiau cleientiaid â blaenoriaeth fel y nodwyd yn y llythyr cylch gwaith blynyddol:-
<http://gov.wales/topics/educationandskills/pathways/careers/?skip=1&lang=cy>

Mae disgwyl i Gyrfa Cymru lunio cynllun busnes cynhwysfawr o ansawdd mewn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol gan Weinidogion. Rhaid i'r cynllun busnes blynyddol gynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd bod blaenoriaethau yn cael eu datblygu.

Rôl y Bwrdd

Rôl y bwrdd yw:

- arwain yn effeithiol; pennu a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- hyrwyddo safonau uchel ar gyfer cyllid cyhoeddus, cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau CCDG yn cael eu cynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol;
- monitro perfformiad y CCDG er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nodau a'i dargedau perfformiad ac yn cyflawni ei amcanion.

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Mr Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru ac ar y panel hefyd fydd Dr Debra Williams, Cadeirydd Bwrdd CCDG a Dr Deidre Hughes, DHM Associates, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Mae'n bosibl y bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr hir, yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a geir, cyn ei drosglwyddo i banel y rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Ionawr 2017 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ym mis Mawrth 2017.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweiliad y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar ddyddiad y cyfweiliad, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os bydd y Gweinidog yn dewis gwneud hynny, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser

**CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) YN MASNACHU DAN YR
ENW
GYRFA CYMRU**

rhwng y cyfweiliad a phan fydd y penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad yn cael ei wneud. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweild yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi fel aelod o Fwrdd CCDG a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk